Cyngor Cymuned Llaneilian (271)
Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Rhagfyr 8, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:
Dafydd Griffiths, Thomas D Jones, John Griffiths, Gordon Hayes, Helen Hughes, Cyng. Wil Hughes, Cyng Aled M Jones

Ymddiheuriadau:
Glenys Jones, Hefina Williams, Carol Whitaker, David Gerrard

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan D Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb
Neb yn datgan diddordeb

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Gordon Hayes, Eilio TD Jones

4 Materion yn Codi

4.1 Peilonau – cafwyd cadarnhad gan y clerc bod ymateb y Cyngor i ddogfen ymgynghori y Grid Cenedlaethol wedi ei anfon yn ol a'u bod wedi ei dderbyn.

4.2 Cae Chwarae – deallwyd bod y gwaith wedi ei wneud erbyn hyn. Cafwyd cadarnhad gan y cwmni bod y si-so wedi ei osod yn gywir yn unol a'r gwneuthuriwr.

4.3 Mynwent – mae Un Llais Cymru wedi cadarnhau bod geirio'r dogfen prisiau claddu yn dderbynniol. Mae copiau wedi eu hanfon at ymhymerwyr yr ardal, ac mae ad-daliad wedi ei anfon at J Hughes ai Fab ar ran y ddau deulu oedd eisioes wedi talu'r gost ychwanegol. Bydd copiau o'r costau yn cael ei anfon gyda'r weithred i unrhyw un sydd yn prynnu bedd o'r newydd o hyn allan.

5 Cynllunio
Ni chyflwynwyd ceisiadau newydd i'w trafod na phenderfyniadau gan y Cyngor Sir.

6 Materion Ariannol

6.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£390.00 J Hughes ai Fab (ad-daliadau)
£2068.56 R Edwards (mynwent)
£2600.44 R Edwards (llwybrau)
£654.84 R Edwards (cae chwarae)
£330.00 R Edwards (cae chwarae – gwaith ychwanegol)

Nodwyd bod anfonebau R Edwards yn cynnwys TAW sydd i'w ad-dalu a bod y clerc eisioes wedi gyrru anfoneb i'r Cyngor Sir am y grant tuag at gostau torri'r llwybrau.

6.2 Cais am Arian – cafwyd tri cais am arian (yr Urdd, y Groes Goch a Chadw Cymru'n Daclus). Cytuno eu bod yn fudiadau rhanbarthol a/neu cenedlaethol ac felly na fydd y Cyngor yn eu cefnogi.

7 Llithrfa
Cafwyd ymateb gan Andy McAvady ar ran y Cyngor Sir yn amlinellu nifer o opsiynnau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cytuno dylai'r opsiynnau gael eu trafod gan y Bartneriaeth yn gyntaf cyn I'r Cyngor Cymuned ymateb I'r Cyngor Sir.

Cytuno trefnu cyfarfod y Bartneriaeth nos Fawrth Ionawr 5ed, a chynnal cyfarfod y Cyngor yr wythnos wedyn (ar y nos Fercher). Bydd gwahoddiad i Dylan Williams, pennaeth yr adran fynychu cyfarfod mis Chwefror y Cyngor. Cafwyd gefnogaeth Aled M Jones ac Wil Hughes i geisio pwyso ar Mr Williams i fod yn bresennol. CET CET

Yn y cyfamser, gofynnwyd i'r clerc gydnabod yr ymateb gan Andy McAvady ac esbonio amseru'r cyfarfodydd (fel uchod). Ni fydd posib gwneud penderfyniad a'i weithredu ar gyfer y flwyddyn CET

ariannol nesaf ac felly bydd dal angen i'r Cyngor Sir baratoi'r ffurflenni priodol a threfnu bod goriadau yn barod erbyn Pasg ar gyfer pwy bynnag fydd yn gyfrifol o'u dosbarthu.

8 Gohebiaeth

8.1 Cyngor Cymuned Llanbadrig – daw gwahoddiad i gynrychiolwyr y Cyngor ddod i gyfarfod gyda prif swyddogion Horizon nos Fercher Ionawr 27. Bydd cyfle i gynrychiolwyr y cynghorau cymuned gwrdd au gilydd nos Lun Ionawr 18 yn dilyn cyafrfod Cyngor Llanbadrig yn y Llyfrgell, Cemaes am 7.30 o'r gloch. Er diogelwch, mae angen cadarnhau gyda Chyngor Llanbadrig pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod yn Wylfa erbyn Ionawr 15. CET

Enwebwyd Dafydd Griffiths ac Elfyn Hughes i gynrychioli ardal Llaneilian.

8.2 Gwarchod y Gymuned – daw gwybodaeth a phosteri gan Heddlu Gogledd Cymru yn hybu'r cynllun. Cytuno arddangos y posteri yn yr hysbysfwrdd. CET

9 Unrhyw Fater Arall

9.1 Cwn Swnllyd – cafwyd ddiweddariad gan Aled M Jones yn cadarnhau bod gwahanol adrannau o fewn y Cyngor Sir yn ogystal a'r heddlu ynghlwm a'r ymchwiliadau. Diolchwyd iddo am ei waith ar y mater.

9.2 To'r Eglwys – er gwybodaeth, mae'r gwaith i drin a thrwsio to'r Eglwys wedi dechrau. Mae'n debyg bydd y gwaith yn parhau am 12 wythnos. Ni fydd yn amharu ar fynediad i'r Eglwys na'r fynwent.

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos FERCHER 13/1/2016

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 7.45 o'r gloch.